



[www.aradgoch.cymru](http://www.aradgoch.cymru)

*Rydym eisiau i'n cynulleidfaoedd glywed eu straeon, dychmygu eu breuddwydion, profi eu byd, rhyfeddu, meddwl a chwerthin - trwy theatr.*

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn gwmni lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; rydym yn creu theatr arloesol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc - a gyda nhw. Rydym yn darparu cyfleoedd i artistiaid theatr gydwethio, ymchwilio a chreu gwaith cyffrous newydd. Mae ein gwaith yn dathlu hunaniaeth Gymreig fel rhan o ddiwylliant cyfoes y byd. Cymraeg yw prif iaith waith y cwmni; rydym yn cyflwyno ein gwaith yn y Gymraeg a Saesneg ac mewn ieithoedd eraill gan hyrwyddo ethos amlieithog a chynhwysol.

\*\*\*\*\*

Mae Canolfan Arad Goch yng Nghanol tref Aberystwyth, a ail-ddatblygwyd yn ddiweddar, yn gyrchfan greadigol ag ynddi adnoddau gwych ar gyfer cynhyrchu ac arddangos dramâu, cerddoriaeth, fideo a chelf. Fe ddefnyddir y ganolfan gan aelodau'r cwmni, gan artistiaid eraill a gan aelodau'r gymuned leol, yn enwedig plant a phobl ifanc.

\*\*\*\*\*

Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau am  
**Swyddog Prosiect Codi Nawdd.**



Noddir gan:  
Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, a Chyngor Sir  
Caerfyrddin  
Elusen Gofrestredig 702506  
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yng Nghymru 2375424  
Rhif TAW/VAT No.549 6488 83

## Cwmni Theatr Arad Goch

**Teitl y Swydd: Swyddog Prosiect Codi Nawdd - ar gyfer prosiectau penodol**

**Graddfa Cyflog: £20,000 - £25,000 pro rata gan ddibynnu ar brofiad y person a benodir**

**Oriau Gwaith:** 16 awr yr wythnos am gyfnod penodol o 12 mis. Gall yr oriau hyn fod yn hyblyg.

**Yn Atebol i:** Y Cyfarwyddwr Artistig

**Lleoliad:** yn swyddfa'r cwmni yn Aberystwyth **neu** fe ellir gwneud y gwaith o leoliad arall neu o gartref y person a benodir

### **Pwrpas y Swydd:**

Ar hyn o bryd mae'r cwmni yn denu incwm ar ffurf nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, grantiau gan awdurdodau addysg, ffioedd am berfformiadau ac incwm drwy osod Canolfan Arad Goch.

Mae'r swydd hon yn ymwneud â denu nawdd ac incwm ychwanegol at brosiectau penodol, sef:

- codi nawdd, gan gynnwys ymgyrch "crowd funding", er mwyn galluogi'r cwmni i brynu fan newydd;
- denu nawdd tuag at Agor Drysau - Gŵyl Celfyddydau Perfformio Rhyngwladol Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc 2024 [www.agordrysau.cymru](http://www.agordrysau.cymru)

Gwneir hyn drwy dargedu:

- mentrau codi arian cymunedol,
- unigolion,
- busnesau,
- ymddiriedolaethau ac elusennau,
- y sector cyhoeddus gan gynnwys cronfeydd a chynlluniau'r Llywodraeth (ag eithrio Cyngor Celfyddydau Cymru a'r awdurdodau lleol),
- elusennau.

### **Prif Ddyletswyddau:**

Fe fydd deilydd y swydd yn:

- ymchwilio ffynonellau nawdd ac ariannu amgen;
- datblygu perthynas gyda chyrrff corfforaethol, ymddiriedolaethau a chwmnïau gan adeiladu cysylltiadau gyda golwg ar sicrhau nawd ar gyfer prosiectau penodol;
- trafod, gyda'r Cyfarwyddwr Artistig, rhaglen waith a cynllun busnes y cwmni am y blynyddoedd nesaf;
- sefydlu perthnasau proffesiynol gyda darpar noddwyr i ennill cefnogaeth hir dymor;
- cyflwyno, datblygu a gweithredu apeliadau penodol i gefnogwyr a noddwyr;
- datblygu perthynas gyda noddwyr a'u hysbysu am weithgareddau'r cwmni;
- datblygu partneriaethau gyda chyrrff cyhoeddus, y sector busnes, grwpiau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol.

Swydd 12 mis fydd hon. Adolygir y swydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

---

### **Danfowch eich cais a CV i:**

**Nia Wyn Evans, Rheolwr Gweinyddol, Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth SY23 2NN.**

- Ffôn :01970 617998

- e-bost: [nia.wyn@aradgoch.org](mailto:nia.wyn@aradgoch.org)

Dyddiad cau: 14eg o Fawrth 2022



Noddir gan:  
Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, a Chyngor Sir  
Caerfyrddin  
Elusen Gofrestredig 702506  
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yng Nghymru 2375424  
Rhif TAW/VAT No.549 6488 83